

**TRUSTEE (VOLUNTARY)
YMDDIRIEDOLWR (GWIRFODDOL)**

INFORMATION PACK | PECYN GWYBODAETH

INTRODUCTION

The Dean and Chapter of Llandaff Cathedral seeks to appoint one Trustee member to join the governing body of the newly incorporated Charitable Incorporated Organisation (CIO), which will take effect from 1 January 2027. This voluntary role is an exciting opportunity to join an experienced team of clergy and lay people whose focus is to interpret and develop the life of this iconic Christian institution in the context of the capital city of Wales. It requires experience, time, compassion and imagination, but offers the chance to play a very significant part in the governance of the Cathedral as well as opportunities to engage in the ceremonial and worshipping life of Llandaff Cathedral.

From 1 January 2027, the Cathedral will operate through the newly incorporated CIO. Its governing body will include five full-time senior clergy and six voluntary lay members. Below is set out the context of the Cathedral's work and governance, and the role and nature of its lay Trustees. Further information about Llandaff Cathedral is available at www.llandaffcathedral.org.uk

CYFLWYNIAD

Mae Deon a Chabidwl Eglwys Gadeiriol Llandaf yn ceisio penodi un Ymddiriedolwr i ymuno â chorff llywodraethu'r Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE) sydd newydd ei gorffori, a ddaw i rym ar 1 Ionawr 2027. Mae'r rôl wirfoddol hon yn gyfle cyffrous i ymuno â thîm profiadol o glerigion a lleygwyr sy'n canolbwyntio ar ddehongli a datblygu bywyd y sefydliad Cristnogol eiconig hwn yng nghyd-destun prifddinas Cymru. Mae'n gofyn am brofiad, amser, tosturi a dychmyg, ond mae'n cynnig y cyfle i chwarae rhan arwyddocaol iawn yn llywodraethiant yr Eglwys Gadeiriol, yn ogystal â chyfleoedd i gymryd rhan ym mywyd seremonïol ac addoli Eglwys Gadeiriol Llandaf.

O 1 Ionawr 2027, bydd yr Eglwys Gadeiriol yn gweithredu drwy'r SCE newydd ei gorffori. Bydd ei chorff llywodraethu yn cynnwys pum uwch glerigwr llawn-amser a chwe aelod lleyg gwirfoddol. Isod nodir cyd-destun gwaith a llywodraethiant yr Eglwys Gadeiriol, a rôl a natur ei Hymddiriedolwyr lleyg. Mae rhagor o wybodaeth am Eglwys Gadeiriol Llandaf ar gael yn www.llandaffcathedral.org.uk



ABOUT LLANDAFF CATHEDRAL

There has been a Christian presence on this site from the time of Saint Teilo in the sixth century, as is still visible in the early Christian pillar-cross in the south aisle and grave markers reset into the fabric.

The present building dates from the Norman period, around 1120 under Urban, bishop from 1107 to 1134, a Welshman, and it was extended in the early thirteenth century, with further additions and modifications in the later Middle Ages.

The Cathedral has undergone three major upheavals and restorations. In the eighteenth century, when the nave was roofless, the architect John Wood of Bath built a 'temple' style church in the choir and part of the nave.

Wood's building was swept away in the Victorian restoration which commenced in the 1840s, under John Prichard and John Pollard Seddon, culminating with the south-west tower in 1867-69.

The devastation of the Cathedral on 2 January 1941, caused by the explosion of a German landmine outside the south aisle, was addressed in the 1950s under the architect George Pace, with a repaired and refurbished Cathedral and the addition of the St David, or Welch Regiment, Chapel.

Llandaff Cathedral's multifaceted role is understood in various ways. As the Mother Church, it is the focus for the corporate life of the Diocese of Llandaff, which is part of the Anglican Province of The Church in Wales. It is therefore the seat of the Bishop of Llandaff and supports and facilitates the bishop's sacramental and teaching ministry. The Cathedral is also its own vibrant Ministry Area, with a busy round of occasional offices and a demanding pastoral ministry.

By virtue of its place in Wales' capital, Llandaff Cathedral plays host to many national services and its ministry and witness increasingly speak directly into the public sphere. Most recently, in September 2022, the Cathedral hosted HM King Charles III and Queen Camilla following the demise of HM Queen Elizabeth II in a service of national remembrance broadcast internationally.

We have principal relationships with four schools in the parish: the Cathedral School, from which our choristers are drawn; a Voluntary Aided Church in Wales Primary School; a Voluntary Aided Church in Wales High School; and, to a lesser extent, Howell's, an independent GDST day school for girls with a co-educational sixth form. St Padarn's, The Church in Wales' ministerial training institution, is close by. The Cathedral also has a thriving Sunday School of around 100 children attending weekly.

The Cathedral has an important role in the life of the Diocese, Ministry Area, City and Province, principally as a place of pastoral care, ordered liturgy, teaching and encounter with the Gospel of Jesus Christ through worship and prayer within the modern catholic tradition.

The Cathedral is used regularly as a venue for external events, and we have longstanding arrangements with several groups including London Concertante and Fever Events UK



EGLWYS GADEIRIOL LLANDAF

Bu presenoldeb Cristnogol ar y safle hwn ers cyfnod Sant Teilo yn y chweched ganrif, fel y gwelir o hyd yn y groes-biler Gristnogol gynnar yn yr eil ddeheuol a'r cerrig beddi sydd wedi'u haillosod yng ngwead yr adeilad.

Mae'r adeilad presennol yn dyddio o'r cyfnod Normanaidd, tua 1120 dan Urban, a fu'n esgob o 1107 i 1134 ac a oedd yn Gymro. Estynnwyd yr adeilad ar ddechrau'r drydedd ganrif ar ddeg, gyda rhagor o ychwanegiadau ac addasiadau yn niwedd yr Oesoedd Canol.

Mae'r Eglwys Gadeiriol wedi profi tri chynnwrf ac adferiad mawr. Yn y ddeunawfed ganrif, pan oedd corff yr eglwys heb do, adeiladodd y pensaer John Wood o Gaerfaddon eglwys ar ffurf 'templ' yn y côr a rhan o gorff yr eglwys.

Dymchwelwyd adeilad Wood yn ystod yr adferiad Fictoraidd a ddechreuodd yn y 1840au, dan John Prichard a John Pollard Seddon, gan arwain at godi'r tŵr de-orllewinol ym 1867-69.

Achoswyd dinistr i'r Eglwys Gadeiriol ar 2 Ionawr 1941 gan ffrwydrad ffrwydryn tir Almaenig y tu allan i'r eil ddeheuol. Aethpwyd i'r afael â hyn yn y 1950au dan y pensaer George Pace, gan atgyweirio ac adnewyddu'r Eglwys Gadeiriol ac ychwanegu Capel Dewi Sant, neu Gapel Catrawd Cymru.

Deallir rôl amlochrog Eglwys Gadeiriol Llandaf mewn sawl ffordd. Fel y Fam Eglwys, hi yw canolbwynt bywyd corfforaethol Esgobaeth Llandaf, sy'n rhan o Dalaith Anglicanaidd yr Eglwys yng Nghymru. Dyma sedd Esgob Llandaf, ac felly mae'n cefnogi ac yn hwyluso gweinidogaeth sacramentaidd ac addysgol yr esgob. Mae'r Eglwys Gadeiriol hefyd yn Ardal Weinidogaeth fywiog ynddi ei hun, gyda chylch prysur o wasanaethau achlysurol a gweinidogaeth fugeiliol feichus.

Oherwydd ei lle ym mhrifddinas Cymru, mae Eglwys Gadeiriol Llandaf yn cynnal llawer o wasanaethau cenedlaethol, ac mae ei gweinidogaeth a'i thystiolaeth yn siarad fwyfwy'n uniongyrchol â'r byd cyhoeddus. Ym mis Medi 2022, croesawodd yr Eglwys Gadeiriol Ei Fawrhydi'r Brenin Siarl III a'r Frenhines Camilla yn dilyn marwolaeth Ei Mawrhydi'r Frenhines Elisabeth II, mewn gwasanaeth coffa cenedlaethol a ddarlledwyd yn rhyngwladol.

Mae gennym berthynas allweddol â phedair ysgol yn y plwyf: Ysgol y Gadeirlan, y daw ein côr-ganwyr ohoni; Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyr yr Eglwys yng Nghymru; Ysgol Uwchradd Wirfoddol a Gynorthwyr yr Eglwys yng Nghymru; ac, i raddau llai, Howell's, ysgol ddydd annibynnol GDST i ferched gyda chweched dosbarth cydaddysgol. Mae Ysgol Padarn, sefydliad hyfforddi gweinidogion yr Eglwys yng Nghymru, gerllaw. Mae gan yr Eglwys Gadeiriol hefyd Ysgol Sul lewyrchus, gyda thua 100 o blant yn mynychu bob wythnos.

Mae gan yr Eglwys Gadeiriol rôl bwysig ym mywyd yr Esgobaeth, yr Ardal Weinidogaeth, y Ddinas a'r Dalaith, yn bennaf fel man gofal bugeiliol, litwrgi trefnus, addysgu a chyfarfod ag Efengyl Iesu Grist drwy addoli a gweddi, mewn traddodiad Catholig modern.

Defnyddir yr Eglwys Gadeiriol yn rheolaidd fel lleoliad ar gyfer digwyddiadau allanol, ac mae gennym drefniadau hirsefydlog gyda nifer o grwpiau, gan gynnwys London Concertante a Fever Events UK.

GOVERNANCE OF THE CATHEDRAL

The Cathedral is moving to a newly incorporated Charitable Incorporated Organisation (CIO), which will take effect from 1 January 2027. From that date, the CIO's trustees will be responsible for governance, providing leadership in partnership with lay staff, while the Residentiary Canons will remain involved in leadership within their areas of work.

The current body of trustees operating within the unincorporated charity will continue as trustees of the new CIO, providing continuity of governance and institutional knowledge. Successful candidates appointed through this recruitment process will join them as charity trustees of the CIO from 1 January 2027.

The Cathedral is particularly seeking candidates with specialist experience in fundraising and/or marketing who can strengthen the governing body in these areas.

Each of the Residentiary Canons (The Dean, The Canon Precentor and The Canon Chancellor) oversees the work of their area of responsibility on behalf of the governing body, with appropriate assistance from the other trustees. The full-time Canons work across departments to co-ordinate the Cathedral's mission and work in their area and for the Cathedral as a whole.

The CIO's trustees provide invaluable perspectives on the Cathedral and help to ensure proper governance in all areas of its work. Each Trustee brings experience and expertise to the Cathedral's life and work.

The Chief Operating Officer is responsible for the overall administration and management of the Cathedral, leadership of its lay staff, implementation of its policies and procedures, and servicing its sub-committees.

The governing body is expected to meet six times each year, with some interaction with Cathedral staff through visits and reports. Trustees support the Residentiary Canons in overseeing the implementation of the CIO's strategy. They are not expected to have executive responsibility but will be charity trustees of the CIO.

CLERGY

The Very Reverend Dr Jason Bray	The Dean
The Reverend Ian Yemm	The Canon Precentor
The Reverend Kate Harrison	The Canon Chancellor

LAY STAFF

Chief Operating Officer	Full-time
Director of Music	Full-time
Assistant Director of Music	Full-time
Assistant Organist	Part-time
Music Animateur	Part-time
Head Verger	Full-time
Assistant Verger	Full-time
Head of Stakeholder Engagement	Full-time
Head of Marketing	Part-time
Office Manager	Part-time
Cleaner	Part-time



LLYWODRAETHIANT YR EGLWYS GADEIRIOL

Mae'r Eglwys Gadeiriol yn symud i Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE) sydd newydd ei gorffori, a ddaw i rym ar 1 Ionawr 2027. O'r dyddiad hwnnw, ymddiriedolwyr y SCE fydd yn gyfrifol am lywodraethiant, gan ddarparu arweinyddiaeth mewn partneriaeth â'r staff lleig, tra bydd y Canonau Preswyl yn parhau i ymwneud ag arweinyddiaeth yn eu meysydd gwaith.

Bydd corff presennol yr ymddiriedolwyr sy'n gweithredu o fewn yr elusen anghorfforedig yn parhau fel ymddiriedolwyr y SCE newydd, gan sicrhau parhad mewn llywodraethiant a chadw gwybodaeth sefydliadol. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus a benodir drwy'r broses recriwtio hon yn ymuno â hwy fel ymddiriedolwyr elusennol y SCE o 1 Ionawr 2027.

Mae'r Eglwys Gadeiriol yn chwilio'n benodol am ymgeiswyr sydd â phrofiad arbenigol mewn codi arian a/neu farchnata ac a all gryfhau'r corff llywodraethu yn y meysydd hyn.

Mae pob un o'r Canonau Preswyl (Y Deon, Y Canon Bencantor ac Y Canon Ganghellor) yn goruchwyllo gwaith ei faes cyfrifoldeb ar ran y corff llywodraethu, gyda chymorth priodol gan yr ymddiriedolwyr eraill. Mae'r Canonau llawn-amser yn gweithio ar draws adrannau i gydlyn cenhadaeth a gwaith yr Eglwys Gadeiriol yn eu meysydd ac er budd yr Eglwys Gadeiriol gyfan.

Mae ymddiriedolwyr y SCE yn cynnig safbwyntiau amhrisiadwy ar yr Eglwys Gadeiriol ac yn helpu i sicrhau llywodraethiant priodol ym mhob maes o'i gwaith. Mae pob Ymddiriedolwr yn cyfrannu profiad ac arbenigedd at fywyd a gwaith yr Eglwys Gadeiriol.

Mae'r Prif Swyddog Gweithredu yn gyfrifol am weinyddiaeth a rheolaeth gyffredinol yr Eglwys Gadeiriol, arwain ei staff lleig, gweithredu ei pholisïau a'i gweithdrefnau, a gwasanaethu ei his-bwyllgorau.

Disgwylir i'r corff llywodraethu gyfarfod chwe gwaith y flwyddyn, gyda rhywfaint o gyswllt â staff yr Eglwys Gadeiriol drwy ymweliadau ac adroddiadau. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cefnogi'r Canonau Preswyl wrth oruchwyllo gweithrediad strategaeth y SCE. Ni ddisgwylir iddynt ysgwyddo cyfrifoldebau gweithredol, ond byddant yn ymddiriedolwyr elusennol y SCE.

CLERIGION

| Y Parchedicafe Ddr Jason Bray

Y Deon

| Y Parchedig Ian Yemm

Y Canon Bencantor

| Y Parchedig Kate Harrison

Y Canon Ganghellor

STAFF LLEIG

Prif Swyddog Gweithredu

| Llawn-amser

Cyfarwyddwr Cerddoriaeth

| Llawn-amser

Cyfarwyddwr Cerddoriaeth Cynorthwyl

| Llawn-amser

Organydd Cynorthwyl

| Rhan-amser

Animeiddiwr Cerddoriaeth

| Rhan-amser

Prif Ferger

| Llawn-amser

Ferger Cynorthwyl

| Llawn-amser

Pennaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

| Llawn-amser

Pennaeth Marchnata

| Rhan-amser

Rheolwr y Swyddfa

| Rhan-amser

Glanhawr

| Rhan-amser

HOW TO APPLY

Trustees of the newly incorporated CIO must meet the eligibility requirements set out in its constitution. The successful candidate should be a baptised and confirmed lay Anglican in communion with The Church in Wales, on the Electoral Roll of any parish in the Diocese of Llandaff and fully supportive of the Cathedral's Vision and Values.

The Cathedral is particularly seeking candidates with a specialism in fundraising and/or marketing.

Appointment to the CIO will take effect from 1 January 2027 and shall be made for a period of four years, renewable for a further period of four years and a final term of two years.

Appointments will be subject to a satisfactory Enhanced Disclosure and Barring Service Check.

To apply for this voluntary role, please send a letter outlining your suitability to our Chief Operating Officer, Geraint Williams, at geraintwilliams@llandaffcathedral.org.uk by midday on Friday 16 October 2026. Interviews will take place on Friday 30 October 2026.

Should you wish to have a confidential discussion about this role, please email the Chief Operating Officer, who will make the appropriate arrangements for you to speak with him.

Applications should be submitted electronically to the Chief Operating Officer at the above email address.

SAFEGUARDING

The Cathedral is committed to taking seriously its responsibilities to protect children, young people and vulnerable adults and to safeguard their welfare. The Cathedral adopts The Church in Wales Safeguarding Children and Young People Policy and upholds its Code of Good Practice.

<https://www.llandaffcathedral.org.uk/safeguarding/>

EQUALITY STATEMENT

The Dean and Chapter of Llandaff Cathedral (Registered Charity No. 11569090) is committed to promoting equality, diversity and inclusion in all its activities and among all employees, in order to retain a positive organisational culture where everybody can achieve and prosper.

Equality, diversity and inclusion is at the heart of The Dean and Chapter of Llandaff Cathedral's mission and is embedded within our organisation. The Dean and Chapter has a unique opportunity to affect positive change within society and recognises that, to reach its maximum potential as a charity, it must foster the same principles within its own working practices.

This policy extends to those employed by The Dean and Chapter of Llandaff Cathedral, our trustees, volunteers, those on external or internal secondments or work placements, our customers and suppliers, and all third parties carrying out operations in its name, collectively referred to as 'our people'.

The full policy can be found on the Cathedral website.

SUT I WNEUD CAIS

Rhaid i ymddiriedolwyr y SCE newydd ei gorffori fodloni'r gofynion cymhwysta a nodir yn ei chyfansoddiad. Dylai'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn Anglican llewg sydd wedi'i fedyddio a'i gonffirmio, mewn cymundeb â'r Eglwys yng Nghymru, ar Gofrestr Etholwyr unrhyw blwyf yn Esgobaeth Llandaf ac yn llwyr gefnogol i Weledigaeth a Gwerthoedd yr Eglwys Gadeiriol.

Mae'r Eglwys Gadeiriol yn chwilio'n benodol am ymgeiswyr sydd ag arbenigedd mewn codi arian a/neu farchnata.

Bydd y penodiad i'r SCE yn dod i rym ar 1 Ionawr 2027 ac am gyfnod o bedair blynedd. Gellir adnewyddu'r penodiad am gyfnod pellach o bedair blynedd ac yna am dymor terfynol o ddwy flynedd.

Bydd penodiadau yn amodol ar Wiriad Manwl boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

I wneud cais am y rôl wirfoddol hon, anfonwch lythyr yn amlinellu eich addasrwydd at ein Prif Swyddog Gweithredu, Geraint Williams, yn geraintwilliams@llandaffcathedral.org.uk erbyn hanner dydd ddydd Gwener 16 Hydref 2026. Cynhelir cyfweiliadau ddydd Gwener 30 Hydref 2026.

Os hoffech gael trafodaeth gyfrinachol am y rôl hon, anfonwch e-bost at y Prif Swyddog Gweithredu, a fydd yn gwneud y tfeniadau priodol i chi siarad ag ef.

Dylid cyflwyno ceisiadau'n electronig i'r Prif Swyddog Gweithredu yn y cyfeiriad e-bost uchod.

DIOGELU

Mae'r Eglwys Gadeiriol wedi ymrwmo i gymryd o ddifrif ei chyfrifoldebau i amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed ac i ddiogelu eu lles. Mae'r Eglwys Gadeiriol yn mabwysiadu Polisi Diogelu Plant a Phobl Ifanc yr Eglwys yng Nghymru ac yn cynnal ei Chod Ymarfer Da.

<https://www.llandaffcathedral.org.uk/safeguarding/>

DATGANIAD CYDRADDOLDEB

Mae Deon a Chabidwl Eglwys Gadeiriol Llandaf (Rhif Elusen Gofrestredig 11569090) wedi ymrwmo i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ei holl weithgareddau ac ymhlith ei holl weithwyr, er mwyn cynnal diwylliant sefydliadol cadarnhaol lle gall pawb gyflawni a ffynnu.

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth wraidd cenhadaeth Deon a Chabidwl Eglwys Gadeiriol Llandaf ac wedi'u gwreiddio yn ein sefydliad. Mae gan Ddeon a Chabidwl Eglwys Gadeiriol Llandaf gyfle unigryw i sicrhau newid cadarnhaol mewn cymdeithas, ac rydym yn cydnabod bod angen inni feithrin yr un egwyddorion yn ein harferion gwaith ein hunain er mwyn gwreiddio ein llawn botensial fel elusen.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r rhai a gyflogir gan Ddeon a Chabidwl Eglwys Gadeiriol Llandaf, ein hymddiriedolwyr, ein gwirfoddolwyr, y rhai ar secondiad neu leoliad gwaith, ein cwsmeriaid a'n cyflenwyr, a phob trydydd parti sy'n gweithredu yn enw Deon a Chabidwl Eglwys Gadeiriol Llandaf. Cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel 'ein pobl'.

Mae'r polisi llawn ar gael ar wefan yr Eglwys Gadeiriol.

